

Heol y Goron (Co16166) – Cyfleusterau Croesi i Gerddwyr

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae arian wedi'i ddyrannu o'n Cronfa Cyfalaf Cyffredinol i wella'r cyfleusterau croesi i gerddwyr yn Heol y Goron o amgylch y gyffordd â Whitchurch Road.

Mae cyffordd Heol y Goron yn llydan, ac nid yw'r cyfleusterau i gerddwyr yn ddigon da. Datblygwyd y cynllun arfaethedig hwn i wella diogelwch ar y ffordd yn Heol y Goron, a'r gobaith yw gwella hygyrchedd yn y gymuned.

Mae'r cynnig presennol yn cynnwys adeiladu lloches newydd i gerddwyr, addasu'r marciau ffordd a chyflwyno Rhwystrau Ymwithiol Cyffordd Ffug ar ochr y de-ddwyrain ar gyffordd Heol y Goron. Yn ystod y cam ymchwilio cychwynnol nodwyd bod nifer o gerbydau'n troi i'r chwith o Whitchurch Road i Heol y Goron yn gyflym, ac felly bydd y rhwystrau ymwithiol arfaethedig yn culhau'r gyffordd ac yn annog cerbydau i arafu.

Cynhaliwyd arolygon cerddwyr yn y lleoliad hwn hefyd a nododd fod galw am groesfan.

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Lloches Cerddwyr. Defnyddir yr **ynysoedd traffig** hyn mewn safleoedd lle nad oes nifer digonol o gerddwyr i gyfiawnhau **croesfan sebra neu groesfan pâl**. Maen nhw'n cynorthwyo cerddwyr i groesi'r ffordd gan adael i gerddwyr ystyried traffig o un cyfeiriad yn unig ac mae ganddynt bellter croesi llawer byrrach. Mae'r llochesi modern yn lletach na'r rhai blaenorol, ac o'r herwydd yn fwy addas ar gyfer cadeiriau olwyn a phramiau.

Cyrbau Gostyngedig. Hon yw'r groesfan cerddwyr symlaf oll, lle gostyngir y lefel rhwng y palmant a'r ffordd gymaint â phosibl er mwyn cynorthwyo defnyddwyr cadair olwyn, pramiau a defnyddwyr eraill sydd ag anawsterau symud. Gosodir pafin botymog arnynt i rybuddio defnyddwyr â nam ar eu golwg nad oes cwrw yn gwahanu'r llwybr cerdded oddi wrth y ffordd.


Rhith-ynys. Ardal benodol ar ganol y ffordd, weithiau â wyneb lliw. Maent yn aml yn cynnwys lôn wedi ei marcio ar gyfer cerbydau sy'n troi i'r dde er mwyn eu galluogi i aros allan o ffordd traffig trwodd. Lleolir **ynysoedd traffig** arnynt weithiau er mwyn rhwystro cerbydau rhag goddiweddyd yn yr ardal.

Lleihau Gofod y Ffordd. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod gyrwyr yn gyrru'n arafach os yw'r ffordd yn edrych yn gulach neu'n fwy cymhleth. Gelwir mesurau a gyflwynir i gyflawni'r effaith hwn yn leihau gofod y ffordd. Gellir gwneud hyn drwy roi marciau ar y ffordd, gan gynnwys **lonydd seiclo, rhith-ynysoedd, ynysoedd traffig, rhwystrau ymwithiol** a mesurau eraill, un ai ar eu pennau'u hunain neu mewn amrywiol gyfuniadau.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **08/12/2017**

A Proud Capital
Prifddinas Falch



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **08/12/2017**

A Proud Capital
Prifddinas Falch

